# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Gorffennaf 2026** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cyngor Llawn i dderbyn yr adroddiad

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.3 Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o

dimau o fewn y Cyngor yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl.

## 3. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn argymell y penderfyniad

Cyflwynwyd drafft o'r adroddiad blynyddol i gyfarfod 16eg o Fehefin o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac addaswyd y cynnwys yn dilyn eu sylwadau.

## 4. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

### **Swyddog Monitro**:

Rwy'n gwerthfawrogi y cyd weithrediad agos sydd yn digwydd rhwng Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Democrataidd .Wrth baratoi ar gyfer yr etholiad a thu hwnt bydd y cyd weithio yma yn allweddol i gefnogi yr aelodau baratoi ar gyfer y tymor newydd. Rwy'n croesawu yr adroddiad yma.

### **Swyddog Cyllid Statudol**:

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu.